Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cronfa Ariannol Wrth Gefn 2026/27 Addysg Bellach

Fersiwn 1

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cynnwys


Diben y cyllid ... 3

Grwpiau â blaenoriaeth ... 3

Dysgwyr a rhaglenni cymwys ... 4

Gweithgaredd cymwys ... 4

Darpariaethau ychwanegol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch a dysgwyr y Brifysgol Agored ... 6

- Cymhwysedd ... 6
- Grwpiau â blaenoriaeth ... 6
- Costau byw a chaledi eithriadol ... 7
- Cymorth ffioedd dysgu ... 7
- Ffynonellau amgen o gymorth ... 7
- Urddas mislif ... 7
- Costau a gweithgareddau cymwys ... 8
- Dosbarthiad ... 8
- Hyfforddiant ac addysg ... 9
- Cyfathrebu ac ymgysylltu ... 9
- Gofynion cyffredinol ... 9

Caffael cynhyrchion mislif ... 9

Trefniadau caffael Cyflawni Masnachol Llywodraeth Cymru ... 10

Trefniadau prynu swmp ... 10

Gweithgaredd anghymwys ... 11

Penderfynu ar daliadau ... 11

Taliadau i ddysgwyr ... 12

Taliadau i ddysgwyr mewn perthynas ag offer a deunyddiau ... 12

Taliadau yn ystod cyfnodau pan fydd astudiaethau wedi'u hatal ... 12

Apeliadau ... 13

Cyngor i ddysgwyr ... 13

- Cyffredinol ... 13
- Cynnig Gofal Plant Cymru ... 13
- Ceiswyr lloches ... 14
- Dinasyddion Wcráin ... 15

Taliadau i sefydliadau ... 15

Gofynion monitro ... 15

Atebolrwydd ... 15

Manylion cyswllt ... 15

## Diben y cyllid

1. Diben y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yw darparu cymorth ariannol i'r dysgwyr cymwys hynny y gallai eu mynediad at addysg bellach gael ei rwystro gan ystyriaethau ariannol, neu sydd, am ba bynnag reswm, gan gynnwys anabledd corfforol neu anabledd arall, yn wynebu anawsterau ariannol.

2. Daw'r canllaw hwn i rym o'r dyddiad cyhoeddi ac mae'n disodli'r canllawiau presennol ar y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Mae canllawiau'n darparu gwybodaeth am bwrpas y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a'r trefniadau gweinyddol ar gyfer y cyllid ac yn gosod gofynion mewn perthynas â'r trefniadau hynny. Rhaid i sefydliadau addysg bellach a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y ddogfen hon wrth bennu eu polisïau ariannu, asesu cymhwysedd ac angen dysgwyr unigol, a gwneud taliadau.

3. Yn y canllawiau hyn, mae “sefydliad” yn cyfeirio at sefydliad o fewn y sector addysg bellach yng Nghymru neu’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy’n cael cyllid at ddibenion y Gronfa Ariannol Wrth Gefn gan Medr.

4. Gall Medr, ar unrhyw adeg, ddiwygio, dirymu, neu ychwanegu at y trefniadau a nodir yn y canllawiau hyn.

## Grwpiau â blaenoriaeth

5. Wrth benderfynu pa ddysgwyr unigol i'w cefnogi, mae Medr yn disgwyl i sefydliadau roi blaenoriaeth o ran cymorth i ddysgwyr sy'n dod o dan y grwpiau â blaenoriaeth canlynol:
   i. Dysgwyr sydd angen help gyda chostau gofal plant, yn enwedig rhieni sengl. Dylai sefydliadau ystyried Cynnig Gofal Plant Cymru cyn gwneud dyfarniad.
   ii. Dysgwyr a fydd yn cyrraedd 20 oed cyn iddynt gwblhau eu Safon Uwch, neu raglenni addysg bellach eraill, ac sy'n wynebu anawsterau ariannol penodol oherwydd na fydd eu teuluoedd yn cael budd-dal plant ac ychwanegiadau dibyniaeth o ran Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Cynhwysol ar gyfer y dysgwyr hyn o'u pen-blwydd yn 20 oed ymlaen mwyach.
   iii. Dysgwyr sy'n ofalwyr (sy'n darparu cymorth di-dâl i unigolyn na allai ymdopi heb y cymorth hwn), plant sy'n derbyn gofal, plant sydd wedi bod mewn gofal, plant sydd ar brawf, neu a ystyrir fel arall eu bod mewn perygl.
   iv. Dysgwyr ar incwm isel neu nad ydynt yn ennill incwm o gwbl, gan gynnwys dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Cynhwysol, neu ddysgwyr o deuluoedd incwm isel neu deuluoedd nad ydynt yn ennill incwm, gan gynnwys y teuluoedd hynny sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Cynhwysol a'r rhai sydd â dibynyddion nad ydynt yn ennill cyflog.
   v. Dysgwyr sydd fel arfer yn byw mewn ardal sydd â sgôr gyffredinol o 190 neu lai yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru diweddaraf.

6. Atgoffir sefydliadau nad yw perthyn i grŵp blaenoriaeth ynddo'i hun yn sail dros wneud dyfarniad o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Ac nid yw’r ffaith nad yw dysgwr yn rhan o grŵp â blaenoriaeth yn golygu nad yw’n gymwys i gael gwobr ychwaith.

## Dysgwyr a rhaglenni cymwys

7. Rhaid i ddysgwr fod yn 16 oed neu'n hŷn ar 31 Awst cyn y flwyddyn academaidd ac yn ymgymryd â rhaglen amser llawn neu ran-amser yn y sefydliad (gan gynnwys rhaglenni Cymraeg i Oedolion).

8. Rhaid i ddysgwyr hefyd fodloni'r amodau preswylio yn y Fframwaith Cyllido Ôl-16.

## Gweithgaredd cymwys

9. Gellir defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i ddarparu cefnogaeth yn y categorïau eang a amlinellir yn y tabl ym mharagraff 13 isod.

10. Dylai sefydliadau nodi nad yw'r categorïau hyn yn hollgynhwysfawr ond eu bwriad yw dangos yr ystod eang o gefnogaeth sy'n dod o fewn cwmpas cyllid y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Pan nad yw math neu gategori penodol o gefnogaeth wedi'i gynnwys yn y tabl ym mharagraff 13, cysylltwch â Medr i gael eglurhad.

11. Gall sefydliadau ddefnyddio hyd at 3% o'u dyraniad cyllid cyfan neu £525, pa un bynnag sydd fwyaf, i sicrhau bod y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn cael ei hysbysebu a'i gweinyddu'n effeithiol. Gall hyn gynnwys costau rhesymol sy'n gysylltiedig â chyhoeddusrwydd, gweinyddiaeth, systemau prosesu taliadau a meddalwedd a ddefnyddir i gefnogi gweithrediad y gronfa.

12. Mae Medr yn cydnabod y bydd dysgwyr na fyddant yn cysylltu â'r sefydliad am gymorth am amrywiaeth o resymau. Felly, bydd Medr yn caniatáu i sefydliadau ddefnyddio hyd at 10% o'u cyllideb mewn ffordd hyblyg ar gyfer trafnidiaeth a bwyd ar ben y ceisiadau unigol er mwyn cydnabod yr anawsterau a'r rhwystrau o ran cael mynediad at gymorth.

13.

| Math o ddarpariaeth | Disgrifiad o'r ddarpariaeth |
|---|---|
| **Cymorth gyda chostau anabledd** | Gall sefydliadau wneud taliadau at ddiben helpu dysgwyr cymwys anabl a dysgwyr cymwys sydd â dibynyddion anabl. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, daliadau mewn perthynas â chostau rhesymol sy'n gysylltiedig â'r anabledd. Pan fo'r sefydliad wedi prynu offer ar gyfer dysgwr anabl cymwys, dylai'r offer hwnnw aros yn eiddo i'r sefydliad, oni bai bod yr offer hwnnw wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion unigol y dysgwr. Dylid ystyried y gronfa Cymorth Dysgu Ychwanegol cyn gwneud dyfarniad o dan y gRonfa Ariannol Wrth Gefn. |
| **Llyfrau** | Gall sefydliadau brynu llyfrau hanfodol i ddysgwyr sydd eu hangen ar gyfer eu rhaglen ddysgu. Dylai unrhyw ddeunyddiau a brynir gan sefydliad gyda Chronfa Ariannol Wrth Gefn aros yn eiddo i'r sefydliad fel arfer. |
| **Offer** | Gall sefydliadau brynu offer hanfodol ar gyfer dysgwyr sydd eu hangen ar gyfer eu rhaglen ddysgu. Ni ddylai hyn |

| Math o ddarpariaeth | Disgrifiad o'r ddarpariaeth |
|---|---|
| | fod ar gyfer deunyddiau a ddarperir i bob dysgwr fel rhan o'r rhaglen. Dylai unrhyw offer a brynir gan sefydliad gyda Chronfa Ariannol Wrth Gefn aros yn eiddo i'r sefydliad fel arfer.<br><br>Dylai eitemau mawr o offer a brynir i'w defnyddio gan ddysgwyr unigol aros yn eiddo i'r sefydliad. |
| **Llety** | Gall sefydliadau gyfrannu at gostau ffioedd llety ar gyfer dysgwyr cymwys y mae'n rhaid iddynt deithio i fynychu'r coleg neu sydd â gofyniad preswyl fel rhan o'u hastudiaethau, er enghraifft, cyfraniadau at ffioedd hostel. Gall sefydliadau hefyd gefnogi dysgwyr cymwys sy'n ddigartref, dan fygythiad o ddigartrefedd, neu sy'n methu aros yn eu llety presennol ac sydd angen cymorth i fyw'n annibynnol tra bod y sefydliad yn eu cynorthwyo i sicrhau llety addas a chael mynediad at fudd-daliadau a gwasanaethau cymorth perthnasol. |
| **Gofal plant** | Gall sefydliadau gefnogi dysgwyr gyda chostau sy'n gysylltiedig â gofal plant. Dylai sefydliadau ystyried Cynnig Gofal Plant Cymru cyn gwneud dyfarniad. |
| **Cludiant (gan gynnwys pryniad swmp)** | Gall sefydliadau ddefnyddio'r cyllid i gefnogi dysgwyr gyda chostau cludiant sy'n gysylltiedig â chael mynediad at eu rhaglen astudio. Gall hyn gynnwys cefnogaeth drwy drefniadau prynu swmp a chymorth ychwanegol i ddysgwyr anabl sy'n wynebu costau teithio uwch neu sydd angen cludiant arbenigol. Gellir dod o hyd i amodau penodol ar gyfer trefniadau prynu swmp ym mharagraffau 24 i 26 isod. |
| **Deunydd ysgrifennu** | Gall sefydliadau brynu deunydd ysgrifennu i ddysgwyr. Dylai hyn fod yn ychwanegol at unrhyw ddeunydd ysgrifennu sydd ar gael i bob dysgwr. |
| **Ffioedd arholiad** | Gall sefydliadau ddefnyddio’r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu cost ffioedd arholiadau corff dyfarnu, os yw’r rhain fel arfer yn cael eu hysgwyddo gan y dysgwr unigol ar y rhaglen ddysgu. |
| **Ffioedd cofrestru** | Gall sefydliadau ddefnyddio’r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu cost ffioedd cofrestru, os yw’r ffioedd fel arfer yn cael eu hysgwyddo gan y dysgwr unigol ar y rhaglen ddysgu. |
| **Teithiau maes** | Gall sefydliadau ddefnyddio’r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i gefnogi dysgwyr gyda chostau teithiau maes sy’n hanfodol i’w rhaglen ddysgu. |
| **Bwyd** | Gall sefydliadau ddefnyddio’r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i fynd i’r afael â’r broblem gynyddol o dlodi bwyd. |

| Math o ddarpariaeth | Disgrifiad o'r ddarpariaeth |
|---|---|
| **Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** | Os yw dysgwyr angen gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i ymgymryd â rhaglen neu gwblhau eu rhaglen astudio, gall sefydliadau eu cefnogi gyda'r costau cysylltiedig. |
| **Ffioedd dysgu a chostau sy'n gysylltiedig â chyrsiau** | Ni ddylid defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu cost ffioedd dysgu unrhyw ddysgwr, oni bai bod dysgwr cymwys rhan-amser yn ymgymryd â modiwl blasu addysg uwch sy'n cynrychioli rhwng 10% a 50% o gwrs addysg uwch llawn amser. Mae gan sefydliadau hefyd ddisgresiwn i ddarparu cyllid i ddysgwyr cymwys sy'n ymgymryd â modiwlau blasu addysg uwch sy'n cynrychioli llai na 10% o gwrs addysg uwch llawn amser, neu lai na 12 credyd, pan maent fel arall yn bodloni meini prawf cymhwysedd y sefydliad ar gyfer cefnogaeth modiwl blasu. |

## Darpariaethau ychwanegol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch a dysgwyr y Brifysgol Agored

14. Bwriedir i'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn weithredu fel un gronfa galedi yn ôl disgresiwn ar draws darpariaeth addysg bellach ac addysg uwch. Er bod yr egwyddorion craidd, y trefniadau gweinyddu, y prosesau asesu, y trefniadau apelio, a'r gofynion monitro yn berthnasol i bob dysgwr, dylai sefydliadau sy'n cefnogi myfyrwyr addysg uwch, gan gynnwys myfyrwyr sy'n astudio drwy'r Brifysgol Agored yng Nghymru, ystyried y darpariaethau ychwanegol a nodir isod.

### Cymhwysedd

15. Yn ogystal â'r gofynion a nodir mewn mannau eraill yn y canllawiau hyn, rhaid i fyfyrwyr addysg uwch fel arfer ddod o fewn categori myfyrwyr cymwys o dan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 (fel y'u diwygiwyd) a bodloni'r gofynion preswylio perthnasol.

16. Gall myfyrwyr addysg uwch cymwys gynnwys myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig sy'n astudio ar raglenni amser llawn neu ran-amser, gan gynnwys graddau sylfaen a blynyddoedd sylfaen sy'n rhan annatod o gwrs addysg uwch.

17. Dylai sefydliadau sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael ei asesu yn unol ag egwyddorion cyffredinol y Gronfa Ariannol Wrth Gefn, gan gynnwys ystyried caledi ariannol, amgylchiadau unigol, a ffynonellau cymorth amgen.

### Grwpiau â blaenoriaeth

18. Wrth asesu ceisiadau gan fyfyrwyr addysg uwch, dylai sefydliadau ystyried yn benodol myfyrwyr â phlant dibynnol, myfyrwyr anabl nad yw eu costau'n cael eu talu'n llawn trwy drefniadau cymorth eraill, myfyrwyr â phrofiad o fod mewn gofal, myfyrwyr ag ymrwymiadau ariannol sylweddol neu ddyledion â blaenoriaeth, myfyrwyr sy'n ofalwyr, myfyrwyr blwyddyn olaf sy'n profi caledi ariannol, a myfyrwyr nad ydynt yn gymwys i gael cymorth statudol i fyfyrwyr ond sy'n gallu dangos eu

bod ag angen ariannol gwirioneddol. Fel sy’n wir am bob dyfarniad y Gronfa Ariannol Wrth Gefn, nid yw aelodaeth o grŵp blaenoriaeth yn golygu bod gan unigolyn hawlogaeth i gyllid yn awtomatig, a dylid asesu pob cais yn ôl ei rinweddau unigol.

## Costau byw a chaledi eithriadol

19. Yn ogystal â'r categorïau o gymorth sydd ar gael drwy'r canllawiau hyn, gall sefydliadau ddarparu cymorth i fyfyrwyr addysg uwch sy'n wynebu caledi sy'n gysylltiedig â chostau byw hanfodol. Gall y rhain gynnwys rhent, costau tai, bwyd, cyfleustodau, dillad, golchi dillad, a gwariant cartref arall na ellir ei osgoi. Gellir darparu cymorth hefyd mewn amgylchiadau eithriadol, gan gynnwys sefyllfaoedd brys, profedigaeth deuluol, argyfyngau cartref, atgyweiriadau hanfodol, neu ddyledion â blaenoriaeth pan allai peidio â thalu arwain at unigolyn yn colli ei lety neu wasanaethau hanfodol.

## Cymorth ffioedd dysgu

20. Fel egwyddor gyffredinol, ni ddylid defnyddio’r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu cost ffioedd dysgu.

21. Gall sefydliadau ddarparu cymorth mewn perthynas â modiwlau blasu addysg uwch cymwys yn unol â'r darpariaethau a nodir mewn mannau eraill yn y canllawiau hyn ac unrhyw reoliadau cymorth i fyfyrwyr perthnasol.

## Ffynonellau amgen o gymorth

22. Cyn dyfarnu dyfarniad, dylai sefydliadau fodloni eu hunain bod y myfyriwr wedi archwilio’r holl ffynonellau cymorth ariannol eraill sydd ar gael iddynt, a phan fo'n briodol, wedi gwneud cais amdanynt. Gall hyn gynnwys cymorth statudol i fyfyrwyr, budd-daliadau lles, a mathau eraill o gyllid cyhoeddus.

23. Cronfa caledi yn ôl disgresiwn yw'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn sydd â’r bwriad o gefnogi dysgwyr na ellir diwallu eu hanghenion ariannol yn rhesymol trwy drefniadau cymorth presennol. Dylai sefydliadau ystyried argaeledd cymorth amgen wrth asesu ceisiadau.

## Urddas mislif

24. Mae sicrhau mynediad at gynhyrchion mislif, yn rhad ac am ddim ac mewn ffordd sy'n ymarferol, yn gynhwysol, ac yn urddasol, yn ganolog i bwrpas y cyllid grant hwn.

25. Daw'r canllaw hwn i rym o ddyddiad ei gyhoeddi ac mae'n disodli'r holl ganllawiau blaenorol ynghylch urddas mislif. Bydd cyllid urddas mislif yn cael ei ymgorffori yng nghanllawiau'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn ar gyfer 2026/27.

26. Mae Medr yn cadw'r hawl i adolygu, dirymu, neu ddiwygio'r trefniadau hyn ar unrhyw adeg.

27. Mae'n ofynnol i sefydliadau addysg bellach sicrhau bod cynhyrchion mislif ar gael i’r grwpiau canlynol:

- **Pob dysgwr** o fewn y sefydliad; ac
- **Unigolion o fewn cymuned ehangach y coleg** sydd angen mynediad atynt, gan roi blaenoriaeth i'r rhai o gartrefi incwm isel.

28. Dylid defnyddio cyllid yn bennaf ar gyfer darparu cynhyrchion mislif. Felly, disgwylir i sefydliadau addysg bellach ddyrannu'r rhan fwyaf o'r cyllid i brynu a dosbarthu'r cynhyrchion hyn.

29. Yn unol ag amcanion cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru, rhaid i sefydliadau addysg bellach flaenoriaethu defnyddio **cynhyrchion mislif ecogyfeillgar**. At ddibenion y canllawiau hyn, diffinnir cynhyrchion ecogyfeillgar fel:
    - **Cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio** (e.e. nicers mislif, padiau y gellir eu hailddefnyddio, cwpanau mislif); a/neu
    - **Cynhyrchion tafladwy nad ydynt yn defnyddio plastig neu’n defnyddio llai o blastig**, wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy neu o ffynonellau cyfrifol.

30. Dylai sefydliadau addysg bellach sicrhau bod y detholiad o gynhyrchion yn cefnogi **cynaliadwyedd amgylcheddol, dewis defnyddwyr, a hygyrchedd**.

## Costau a gweithgareddau cymwys

31. Mae Medr wedi ymrwymo i fynd i'r afael â phob math o lygredd plastig. Mae'n ofynnol i sefydliadau addysg bellach **wario o leiaf 80% o gyllid grant ar gynhyrchion mislif ecogyfeillgar**, a ddiffinnir fel opsiynau y gellir eu hailddefnyddio a/neu opsiynau heb blastig.

32. Mae'r gofyniad hwn yn cefnogi symudiad oddi wrth gynhyrchion plastig untro drwy flaenoriaethu dewisiadau amgen cynaliadwy, gan gynnal hygyrchedd, dewis, ac urddas i ddefnyddwyr.

33. Gellir defnyddio cyllid grant ar gyfer y canlynol:
    - Darpariaeth cynnyrch mislif
    - Cynhyrchion mislif, gan gynnwys nicers mislif
    - Bagiau gwaredu glanweithiol
    - Pyrsiau storio neu fagiau gwlyb ar gyfer cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio
    - Peiriant dosbarthu cynnyrch mislif

34. Eitemau ategol (pan fydd angen amlwg)
    - Dillad, pan fydd angen i ddysgwr newid oherwydd gwaedu mislif (wedi'i gyfyngu i ddillad isaf, trowsus, sgertiau, a theits)
    - Powdr neu hylif golchi dillad, ar gyfer glanhau cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio neu ddillad budr ar y safle pan nad oes dewis amgen ar gael
    - Weips gwlyb, dim ond pan fo angen, at ddibenion hylendid uniongyrchol pan nad yw unigolyn gartref

## Dosbarthiad

35. Costau sy'n gysylltiedig â dosbarthu cynhyrchion i ddefnyddwyr, gan gynnwys postio i gyfeiriadau cartref pan fo angen

## Hyfforddiant ac addysg

36. Gellir defnyddio hyd at **20% o gyfanswm y grant** ar gyfer hyfforddiant a gweithgareddau addysgol

37. Dylai gweithgaredd wneud y canlynol:
    - Darparu gwybodaeth am iechyd mislif a dewisiadau o ran cynnyrch
    - Cynnwys cyfleoedd i roi cynnig ar gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio neu fynd â nhw adref
    - Cyd-fynd ag arferion sefydliadol presennol ac adnoddau sydd ar gael

38. Anogir sefydliadau addysg bellach i ddefnyddio adnoddau presennol, gan gynnwys y rhai sydd ar gael trwy Hwb, a Mislif Fi.

## Cyfathrebu ac ymgysylltu

39. Gweithgarwch cyfathrebu a marchnata wedi'i dargedu pan nad yw'n cael ei ddarparu'n ganolog.

40. Rhaid i weithgareddau wneud y canlynol:
    - Codi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth a'i gwneud yn fwy hygyrch
    - Lleihau swm deunyddiau printiedig pan fo modd
    - Rhaid cytuno ymlaen llaw gyda Medr ar wariant cyfathrebu sylweddol y tu allan i weithgareddau sefydliadol arferol.

## Gofynion cyffredinol

41. Rhaid i bob gwariant gyflawni'r canlynol:
    - Cefnogi mynediad uniongyrchol at gynhyrchion mislif ac amcanion urddas mislif
    - Dangos gwerth am arian a chymesuredd
    - Cael ei gefnogi gan dystiolaeth briodol at ddibenion archwilio

## Caffael cynhyrchion mislif

42. Nid yw Medr yn cymeradwyo unrhyw gynhyrchion, brandiau, na chyflenwyr penodol. Dylai sefydliadau sicrhau bod cynhyrchion mislif yn cael eu caffael drwy lwybrau caffael priodol a'u bod yn cynnig gwerth am arian.

43. Anogir sefydliadau i ddefnyddio trefniadau caffael cydweithredol a fframweithiau cyflawni masnachol Llywodraeth Cymru perthnasol pan fo modd. Dylai dulliau caffael gefnogi cydymffurfedd â gofynion caffael cyhoeddus, galluogi mynediad at gynhyrchion addas, a hyrwyddo trefniadau prynu a dosbarthu effeithlon.

44. Wrth ddewis cynhyrchion, dylai sefydliadau gefnogi dewis dysgwyr gan fodloni'r gofynion cynaliadwyedd a nodir yn y canllawiau hyn, gan gynnwys blaenoriaethu cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio a chynhyrchion di-blastig pan fo'n briodol.

45. Dylai sefydliadau geisio cyngor gan eu timau caffael ynghylch cytundebau fframwaith sydd ar gael, cyfleoedd prynu cydweithredol, a threfniadau cyflenwi.

### Trefniadau caffael Cyflawni Masnachol Llywodraeth Cymru

46. Mae trefniadau caffael Llywodraeth Cymru bellach yn cael eu rheoli drwy **Gyflawni Masnachol Llywodraeth Cymru**, sydd wedi ymgymryd â'r swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

47. Mae Cyflawni Masnachol Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus, yn darparu mynediad at fframweithiau caffael cydweithredol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys cynhyrchion glanhau, ymolchfa, ac ystafelloedd ymolchi a all gynnwys cynhyrchion mislif.

48. Anogir sefydliadau i gael mynediad at fframweithiau cyfredol drwy’r canlynol:
    - GwerthwchiGymru
    - Eu timau caffael mewnol
    - Cysylltiadau categori Cyflawni Masnachol Llywodraeth Cymru drwy Lywodraeth Cymru

49. Efallai bod fframweithiau blaenorol (e.e. **NPS-CFM-0099-19**) wedi dod i ben neu wedi cael eu disodli. Dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn defnyddio'r **fframwaith byw cyfredol neu ei olynydd** wrth gaffael cynhyrchion mislif.

50. Mae defnyddio fframweithiau cenedlaethol neu gydweithredol:
    - Yn cefnogi cydymffurfedd â rheoliadau caffael cyhoeddus
    - Yn galluogi mynediad at gyflenwyr sydd wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw
    - Gall ddarparu gwell gwerth ac effeithlonrwydd gweinyddol

51. Mae adborth gan y sector wedi tynnu sylw at y ffaith y gall storio cyfeintiau mawr o gynhyrchion fod yn her. Gall cyflenwyr fframwaith gynnig:
    - Amserlenni dosbarthu rheolaidd
    - Archebu llwyth llai
    - Cyflenwad uniongyrchol i'r safle neu aml-safle

52. Anogir sefydliadau i archwilio dulliau caffael cydweithredol neu ar y cyd pan fo'n briodol.

### Trefniadau prynu swmp

53. Gall sefydliadau wneud trefniadau prynu swmp gyda chwmnïau trafnidiaeth lleol a darparu offer neu wasanaethau am gost is i ddysgwyr cymwys a fyddai fel arall angen cymorth gan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

54. Gellir defnyddio’r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i roi cymhorthdal i drefniadau prynu swmp presennol a ariennir gan gronfeydd y sefydliadau eu hunain. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried hyn yn brif ffynhonnell ariannu ar gyfer y trefniadau hyn. Rhaid ystyried anghenion unigol dysgwyr yn y lle cyntaf ar gyfer gwariant y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

55. Pan fydd sefydliad yn ymrwymo i drefniant prynu swmp, rhaid cynnal llwybr archwilio clir sy'n nodi'n glir buddiolwyr y dysgwyr a swm y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a ddyrannwyd. Rhaid i'r cofnodion hefyd ddangos bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn wynebu caledi ariannol ac, heb y fath gefnogaeth, y byddai'n anodd iddynt gael mynediad at ddysgu.

### Gweithgaredd anghymwys

56. Ni ddylid defnyddio’r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu cost ffioedd dysgu, ac eithrio yn unol â’r tabl ym mharagraff 13 uchod.

57. Ni ddylai sefydliadau ddefnyddio’r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i gefnogi cynlluniau hawlogaeth sy’n seiliedig ar brawf modd (e.e. grant hawlogaeth/cynlluniau bwrsariaeth).

58. Ni ddylid defnyddio’r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i ddarparu cyfleusterau grŵp neu gymunedol, nac i wneud addasiadau i adeiladau.

59. Gall sefydliadau ddefnyddio'r cyllid i ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth, ond, ni ddylai gwasanaethau o'r fath gynnwys costau cyfalaf, megis prynu cerbyd.

60. Mae dirwyon a blaendaliadau y tu allan i gwmpas y cyllid. Mae enghreifftiau’n cynnwys dirwyon am ddychwelyd llyfrau llyfrgell yn hwyr neu ddirwyon disgyblu eraill, blaendaliadau ar gyfer loceri, cardiau adnabod, allweddi, cardiau llyfrgell, ac offer sy’n ad-daladwy’n llawn ac eithrio mewn achosion pan maent yn cael eu difrodi neu eu dwyn.

### Penderfynu ar daliadau

61. Rhaid i sefydliadau bennu eu meini prawf a'u gweithdrefnau cymhwysedd eu hunain ar gyfer ystyried ceisiadau a gwneud taliadau i ddysgwyr cymwys, yn amodol ar y canllawiau hyn ac unrhyw ganllawiau eraill gan Medr.

62. Rhaid i sefydliadau gael polisïau ysgrifenedig sy'n egluro eu trefniadau gweithredol ar gyfer dyfarnu Cronfa Ariannol Wrth Gefn. Dylai'r rhain fod ar gael yn eang i bob rhanddeiliad.

63. Rhaid i sefydliadau werthuso ceisiadau am y Gronfa Ariannol Wrth Gefn fesul achos yn unol â'u polisïau ysgrifenedig ar gyfer dyrannu cyllid. Ym mhob achos, rhaid i sefydliadau asesu cais dysgwr yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd gan y dysgwr a’i amgylchiadau unigol. Dylid hysbysu dysgwr a yw ei gais am gyllid wedi bod yn llwyddiannus ai peidio o fewn pedair wythnos i'r sefydliad gael y cais hwnnw.

64. Wrth ystyried ceisiadau, rhaid i sefydliadau ystyried amgylchiadau ariannol y dysgwr ac argaeledd cymorth o ffynonellau eraill, megis y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach, neu gynlluniau cyfatebol eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru, Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru; neu fudd-daliadau lles gan gynnwys Cymhorthdal Incwm, Credyd Cynhwysol, a chymorth a ddarperir gan awdurdod lleol y dysgwr. Efallai na fydd rhai dysgwyr yn gymwys i

gael y gefnogaeth o'r rhestr uchod, ond efallai eu bod yn wynebu caledi ariannol o hyd ac felly byddent yn gymwys i gael cefnogaeth drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

65. Atgoffir sefydliadau mai bwriad y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yw darparu cefnogaeth i ddysgwyr unigol mewn achosion pan gadarnheir angen ac na ddylid ei ddefnyddio fel offeryn marchnata. Dylai sefydliadau fod yn ymwybodol o'r gefnogaeth a gynigir gan awdurdodau lleol a sefydliadau cyfagos a dylent sicrhau nad yw'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn cael ei defnyddio i gynnig cymhellion sydd â'r bwriad o ddenu dysgwyr o sefydliadau eraill.

66. Wrth benderfynu ar daliadau i ddysgwyr, dylai sefydliadau ystyried unrhyw god ymarfer a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn perthynas â gofynion a osodir gan Bennod 2 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## Taliadau i ddysgwyr

67. Rhaid i sefydliadau ddelio â thaliadau dysgwyr yn brydlon gan gadw mewn cof bwrpas y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a'r amgylchiadau sy'n arwain at galedi ariannol.

68. Ni ddylai sefydliadau ymrwymo i unrhyw ddyfarniadau i ddysgwyr sy’n para sawl blwyddyn.

69. Er y gellir cytuno mewn egwyddor ar daliadau o’r Gronfa Ariannol Wrth Gefn cyn dechrau’r flwyddyn academaidd, **ni** ddylid eu talu nes bod y dysgwr wedi dechrau ei raglen astudio.

70. Gall sefydliadau wneud taliadau i ddysgwyr cymwys naill ai mewn swm unigol neu mewn rhandaliadau.

## Taliadau i ddysgwyr mewn perthynas ag offer a deunyddiau

71. Gall dysgwr cymwys wneud cais am gyllid mewn perthynas ag offer a/neu ddeunyddiau hanfodol y maent wedi'u prynu i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwrs. Os yw cais y dysgwr yn llwyddiannus, gall sefydliad ad-dalu'r costau yr aed iddynt gan y dysgwr wrth brynu'r offer a/neu'r deunyddiau yn llawn neu'n rhannol.

72. Mae Medr yn cynghori y dylai sefydliadau brynu'r offer ar ran dysgwyr a rhoi'r offer iddynt gan nad yw hyn yn dylanwadu ar fudd-daliadau eraill.

## Taliadau yn ystod cyfnodau pan fydd astudiaethau wedi'u hatal

73. Gall sefydliad wneud taliadau i ddysgwyr cymwys sydd wedi gohirio eu hastudiaethau oherwydd iechyd, rhesymau gofal, beichiogrwydd, neu am unrhyw amgylchiadau eraill y mae’r sefydliad yn eu hystyried yn briodol, ar yr amod bod y sefydliad yn fodlon nad yw'r dysgwr wedi tynnu'n ôl o'r cwrs neu wedi rhoi'r gorau iddo, a'i fod yn bwriadu dychwelyd i'r cwrs.

## Apeliadau

74. Rhaid i sefydliadau gael gweithdrefn apelio gyhoeddedig ar waith ar gyfer achosion pan fod dysgwyr wedi gwneud cais aflwyddiannus am gymorth gan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Dylai'r weithdrefn hon fod yn amlwg, a rhaid hysbysu dysgwyr am eu hawl i apelio. Y sefydliad sy'n gyfrifol am weinyddu'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch cymhwysedd a dyfarniadau. Mater i'r sefydliadau yw ystyried pob achos a datrys apeliadau yn unol â'u gweithdrefn gyhoeddedig.

75. Dylai sefydliadau ystyried sut y gall llais y dysgwr lywio eu prosesau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â gweinyddu’r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

## Cyngor i ddysgwyr

### Cyffredinol

76. Mae darparu cyngor ariannol i ddysgwr yn rhan allweddol o sicrhau defnydd effeithiol o’r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

77. Dylai sefydliadau sicrhau bod dysgwyr sy'n ceisio cymorth gan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn cael gwybod y gallai unrhyw daliadau a geir gael goblygiadau i'w hawl i fudd-daliadau, yn enwedig Cymhorthdal Incwm a Chredyd Cynhwysol. Dylai sefydliadau gynghori dysgwyr sy'n geiswyr lloches i roi gwybod i'r Swyddfa Gartref am unrhyw gyllid a geir er mwyn sicrhau nad yw cymorth ariannol ar gyfer lloches yn cael ei effeithio arno.

### Cynnig Gofal Plant Cymru

78. Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru i rieni cymwys plant 3 a 4 oed am 48 wythnos mewn cyfnod o 52 wythnos.

79. Yn ystod tymhorau ysgol mae hyn yn cynnwys o leiaf 10 awr o addysg gynnar (a ddarperir drwy ddysgu sylfaen) ac oriau ychwanegol o ofal plant wedi'i ariannu. Ar gyfer yr wythnosau yn ystod gwyliau sydd ar gael o dan y cynnig, gall rhieni gael mynediad at 30 awr o ofal plant wedi'i ariannu.

80. O fis Medi 2022 ymlaen, mae Cynnig Gofal Plant Cymru wedi'i ehangu i rieni sy’n ymgymryd ag addysg a hyfforddiant.

81. Rhaid i rieni mewn addysg fod wedi cofrestru ar gwrs sy'n para o leiaf 10 wythnos i fod yn gymwys ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru yn ogystal â bodloni gofynion cymhwysedd eraill.

82. Nid yw Cynnig Gofal Plant Cymru yn cael blaenoriaeth dros gymorth arall, gan gynnwys y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Dylid rhoi cyngor ac arweiniad i rieni i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus am eu hopsiynau.

83. Gan mai dim ond 30 awr o ofal plant yr wythnos y mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn ei ddarparu, gellir defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu am oriau ychwanegol y gallai fod eu hangen ar rieni ynghyd â chostau eraill sy'n gysylltiedig â gofal plant nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynnig.

84. Er bod y risg o gyllido deuol yn isel, dylid rhoi gwiriadau ar waith i sicrhau nad yw oriau a gwmpesir gan Gynnig Gofal Plant Cymru wedi'u cynnwys mewn unrhyw hawliadau a wneir gan rieni am gymorth y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

85. Dylid cyfeirio dysgwyr a allai fod yn gymwys ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru, neu sydd â diddordeb mewn cael rhagor o wybodaeth, at y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Byddant yn gallu cynghori rhieni am Gynnig Gofal Plant Cymru, eu cymhwysedd, a chymorth arall a allai fod ar gael iddynt.

## Ceiswyr lloches

86. Nid oes gan geiswyr lloches hawl i ddefnyddio rhestr benodol o "arian cyhoeddus". Fodd bynnag, ni ystyrir bod y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn "gronfa gyhoeddus". Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau i sefydliadau yng Nghymru er mwyn iddynt ddeall cysyniad cronfeydd cyhoeddus yn well. Gall ceiswyr lloches sy'n ddiymgeledd wneud cais i'r Swyddfa Gartref am dai addas ac arian ar gyfer hanfodion, ond nid ydynt yn gymwys i gael cymorth statudol i fyfyrwyr neu gymorth o ffynonellau eraill megis cynlluniau'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.

87. Cyn belled â bod ceisiwr lloches yn bodloni'r amodau cymhwysedd y cyfeirir atynt yn y paragraff uchod, gall sefydliadau ddarparu cymorth o fath arall megis llyfrau, offer, gofal plant, neu bas teithio.

88. Dylai offer a ddarparwyd ddod gyda llythyr yn egluro ei fod wedi'i ddarparu gan y sefydliad.

89. Dylai sefydliadau osgoi gwneud taliadau mawr i gyfrifon banc i geisiwr lloches oni bai eu bod yn blentyn digwmni sy'n ceisio lloches.

90. Nid yw plant digwmni sy'n ceisio lloches yn cael cymorth ariannol gan y Swyddfa Gartref a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol amdanynt. Cânt eu trin fel plant sy'n derbyn gofal a byddent yn dod o dan y grwpiau â blaenoriaeth ym mharagraff 5, uchod, os ydynt mewn angen ariannol.

91. Pan fydd plant sy'n ceisio lloches yn dod yn oedolion yn gyfreithiol yn 18 oed, rhaid i sefydliadau ystyried eu statws mewnfudo. Pan benderfynir ar y cais am loches o'u plaid, rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu'r un gefnogaeth a gwasanaethau iddynt ag y maent yn eu darparu i unigolion sy'n gadael gofal. Felly, maent yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth.

92. Mae ceiswyr lloches y gwrthodwyd lloches iddynt neu y penderfynwyd bod ganddynt gais annerbyniadwy ond y rhoddwyd cymorth iddynt o dan Adran 4 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth gan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Pan fo dysgwr yn derbyn cymorth Adran 4, dylai'r sefydliad fodloni ei hun nad yw'r dysgwr i fod i gael ei symud o'r DU yn y dyfodol

agos. Ni ddylai sefydliadau wneud ymholiadau i'r Swyddfa Gartref i gadarnhau ei barn.

**Dinasyddion Wcráin**

93. Bydd dinasyddion Wcráin a gefnogir drwy un o gynlluniau fisa Wcráin Llywodraeth y DU yn gymwys ar unwaith i gael cyllid ôl-16 a byddant wedi'u heithrio o'r gofynion preswylio tair blynedd arferol. Mae'r cymhwysedd hwn yn ymestyn i gefnogaeth y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Mae categorïau mewnfudo eraill hefyd wedi'u heithrio rhag bodloni'r gofynion preswylio tair blynedd, gweler y rhestr sydd wedi'i chynnwys yn y Fframwaith Ariannu Ôl-16.

## Taliadau i sefydliadau

94. Bydd cyllid yn cael ei dalu i sefydliadau mewn tair rhandaliad ym mis Awst, mis Rhagfyr, ac mis Ebrill.

## Gofynion monitro

95. Rhaid i sefydliadau sy'n cael y Gronfa Ariannol Wrth Gefn gyflwyno adroddiad diwedd blwyddyn erbyn y dydd Gwener olaf ym mis Tachwedd ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd. Bydd Medr yn cyhoeddi templedi adroddiadau i'w cwblhau cyn y dyddiad cau ar gyfer eu cyflwyno.

96. O 2026/27 ymlaen, mae'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn un o bum ffrwd gyllido sy'n rhan o 'Gronfa Cymorth a Llesiant' Medr. Mae'r Gronfa Cymorth a Llesiant yn caniatáu hyblygrwydd i ddarparwyr symud cyllid rhwng pob un o'i gydrannau.

97. Yn dilyn dychwelyd y disgwyliadau monitro gofynnol ar gyfer pob cydran o'r ffrwd gyllido, bydd unrhyw danwariant islaw 100% o gyfanswm dyraniad Cronfa Cymorth a Llesiant darparwr yn cael ei hawlio'n ôl yn llawn. Ni fydd unrhyw opsiwn o gario'r dyraniad hwn ymlaen i flynyddoedd y dyfodol.

## Atebolrwydd

98. Rhaid i sefydliadau roi sylw i Fframwaith Rheoleiddio Medr ac unrhyw amodau, canllawiau, gofynion, neu gyfarwyddiadau cysylltiedig a gyhoeddir o bryd i'w gilydd. Rhaid i sefydliadau sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i gefnogi llywodraethu, rheolaeth ariannol, atebolrwydd, ac archwilio effeithiol mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

## Manylion cyswllt

99. Am unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â chynnwys y canllaw hwn, cysylltwch â buddsoddiamonitro@medr.cymru.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**